**<u>Datganiad o Reswm</u>**

**Y bwriad i gau'n barhaol Maes Parcio De Hillsboro Place, Porthcawl.**

Mae safle maes parcio presennol De Hillsboro Place wedi'i glustnodi fel ardal gyhoeddus (man allanol sy'n hygyrch i'r cyhoedd) ac felly cynigir cau'r maes parcio hwn yn barhaol a'i ddileu o Orchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024.

Dangosir yr ardal o'r maes parcio y bwriedir ei chau yn goch ar gyfeirnod llun CJ-26-01.

Mae ardal gyhoeddus De Hillsboro yn rhan o Raglen Adfywio Glannau Porthcawl. Ar ôl cwblhau'r cyfleuster Metrolink, mae cyflwyno ardal gyhoeddus arfaethedig yn cynrychioli rhan nesaf y prosiect ehangach. Yn dilyn gwaith wedi'i gwblhau o dan y Strategaeth Creu Lleoedd Canol Trefi yn 2024, gwnaed cais am gyllid i Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith dylunio ar gyfer y cynllun.

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gau maes parcio De Hillsboro Place yn ffurfiol a'i dynnu oddi ar Orchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 122(1) bod y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2)) i sicrhau symud traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel, a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.
Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122 (2) yw:-
1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;
2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn mynd trwyddynt;
3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;
4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra'r rhai sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;
5. Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol cau maes parcio De Hillsboro Place yn ffurfiol.

.

Cafodd y Cabinet wybod yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Tachwedd 2025, y byddai angen cau maes parcio De Hillsboro Place er mwyn hwyluso'r cynllun ardal gyhoeddus.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Wasanaethau Adfywio.